Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion

**Heol Pool**
**Llanfair Caereinion**
**Powys**
**SY21 0SF**

**Rhif yr Ysgol: 6662021**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**Rhif Arolygiad: 1171**

**gan**


**Mr Nicholas Jones**

**Arolygwr Cofnodol o dan gontract i Estyn**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Llanfair Caereinion yn ysgol sydd â ffrwd Gymraeg a Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 oed. Mae`n gwasaenaethu`r dref a`r ardal wledig gyfagos ym Mhowys. Mae 182 o ddisgyblion ar y gofrestr, 86 mewn dosbarthiadau oedran cymysg yn y ffrwd Gymraeg a 96 mewn dosbarthiadau oedran cymysg yn y ffrwd Saesneg. Mae nifer y disgyblion wedi aros o gwmpas y rhif cyfredol am sawl blwyddyn.

Mae dros dri chwarter o`r disgyblion yn dod o gartrefi lle`r Saesneg yw`r brif iaith. Daw pedwar disgybl o gefndir ethnig lleiafrifol.

Cydnabyddir nad yw'r ardal dan anfantais cymdeithasol nac economaidd neu'n freintiedig ac mae gan 8% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn cryn dipyn yn llai na`r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Nodwyd bod gan 17% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae hyn yn debyg i`r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan ddau ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Caereinion yw £3,472, sy'n cymharu ag uchafswm o £11,812 ac isafswm o £2,891 ar gyfer ysgolion cynradd ym Mhowys. Gan yr ysgol y mae'r 60ed cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 101 ysgol gynradd ym Mhowys.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers 1991 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2004.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda am fod:

- cyflawniad a chynnydd amlwg i waith disgyblion dros gyfnod o amser;
- medrau technoleg a gwybodaeth yn dda neu`n dda iawn;
- mae ysgrifen ymestynnol disgyblion yn agwedd dda o`r ysgol;
- safonau lles disgyblion yn dda ac yn cyfrannu`n dda i'w medrau cymdeithasol a bywyd;
- yr addysgu'n dda yn gyffredinol ar draws yr ysgol;
- y gofal, cymorth ac arweiniad yn gadarnhaol ac yn annog ymglymiad y disgyblion yn eu hysgol a'u cymuned ehangach; ac mae
- arweinyddiaeth a rheolaeth yn gadarn ac mae`r ysgol yn hunanarfarnu`n dda.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae`r ysgol yn defnyddio systemau hunanarfarnu`n effeithiol i arwain y cynllunio strategol;
- mae`r cynllunio strategol yn ffocysu'n benodol ar godi safonau a lefelau darpariaeth; a'r
- defnydd da a wneir o amgylchedd ac adnoddau`r ysgol i wella profiadau dysgu`r disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol i:

A1 ddatblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion;

A2 ddatblygu strwythur cynllunio cydweithrediadol ar draws yr ysgol sy`n nodi amcanion dysgu clir ac sy`n darparu ar gyfer gweithgareddau gwahaniaethol;

A3 wneud defnydd effeithiol o asesu er mwyn nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer disgyblion, ac er mwyn darparu heriau digonol ar gyfer anghenion dysgu unigol pob disgybl.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae sgiliau sylfaenol y mwyafrif o ddisgyblion wrth ddechrau'r ysgol yn dda.

Ers 2007, mae cyraeddiadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 (CA1) a chyfnod allweddol 2 (CA2), yn ôl asesiadau athrawon , yn uwch yn gyffredinol na chanlyniadau lleol, cenedlaethol a`r teulu o ysgolion.

Dros y bedair blynedd ddiwethaf, wrth gyfuno`r pynciau craidd sef Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae cyraeddiadau`r disgyblion yn tueddu i fod yn is na`r rhai mewn ysgolion sy`n debyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae Cymraeg bron bob tro yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg yn y ddau gyfnod allweddol. Yn CA1, mae`r canlyniadau dros y bedair blynedd ddiwethaf yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn aml iawn yn gosod yr ysgol yn y trydydd neu`r chwarter isaf. Yn 2010 yn CA2, mae`r canlyniadau yn gosod yr ysgol yn yr ail chwarter yn Saesneg a mathemateg a`r chwarter cyntaf mewn Cymraeg a gwyddoniaeth.

Mae`r lefelau cyrhaeddiad o fewn ffeiliau a llyfrau`r plant ar draws yr ysgol yn gyson dda mewn perthynas â`u hoed a`u gallu ac yn dangos cynnydd a chyflawniad da dros gyfnod o amser.

Mae perfformiad y merched yn well na`r bechgyn dros amser. Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn safonau`r nifer fach iawn o ddisgyblion sydd â`r hawl i gael prydau ysgol am ddim na`r rhai o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae`r rhan fwyaf o`r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau allweddol ac ehangach. Mae bron pob disgybl yn gwrando`n dda, siarad yn glir a darllen yn hyderus. Mae`r rhan fwyaf o`r disgyblion yn ysgrifennu`n helaeth ar draws y cwricwlwm ar gyfer pwrpasau gwahanol ac mae medrau cyflwyno bron pob un o`r disgyblion yn dda. Mae medrau rhifedd llawer o`r disgyblion wedi`u sefydlu`n dda. Nid yw medrau dysgu annibynnol y rhan fwyaf o`r disgyblion wedi`u datblygu`n gyson ar draws yr ysgol. Mae medrau technoleg a gwybodaeth bron pob un o`r disgyblion naill ai`n dda neu`n dda iawn.

Mae medrau bron pob un o`r disgyblion yn yr iaith Gymraeg yn dda gan ystyried cyd-destun a chefndir ieithyddol ffrydiau iaith yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae gan yr holl ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd ac maent yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymddwyn yn gyfrifol. Maen nhw`n gwybod bod eu hanghenion yn cael sylw effeithiol. Mae datblygiad o fedrau diwylliannol bron pob un o`r disgyblion wedi`i sefydlu`n dda.

Mae bron pob un yn frwdfrydig mewn gwersi; fodd bynnag, mewn rhai dosbarthiadau mae llawer o ddisgyblion yn dangos diffyg hyder fel dysgwyr annibynnol. Er y gwnaeth lleiafrif bach o ddisgyblion fynegi pryder, mae ymddygiad yn dda ac mae bron pob un o`r disgyblion yn gwrtais ac yn ymateb yn dda i oedolion. Mae presenoldeb yn dda, o gwmpas 95%.

Mae`r disgyblion sydd yn aelodau o gyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol trwy wneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar sawl agwedd o fywyd yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r staff yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu llwyddiannus. Mae cynllunio gwersi yn drwyadl yn y rhan fwyaf o`r dosbarthiadau. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y datblygiad o`u gwybodaeth, dealltwriaeth a`u medrau cyfan gwbwl. Fodd bynnag, mae anghysondebau ar draws yr ysgol mewn agweddau o`r cynllunio tymor byr ac nid yw`n broses gydweithrediadol. Yn yr achosion hyn, y canlyniad yw diffyg amcanion dysgu clir a gwaith sydd heb ei wahaniaethu`n briodol.

Mae'r ddarpariaeth i sicrhau bod y disgyblion yn caffael medrau llythrennedd a rhifedd yn dda. Mae`r ysgol yn datblygu medrau ysgrifennu ymestynnol yn dda iawn. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau cyfrifiadurol a thechnolegol eraill ar draws y cwricwlwm wedi`i datblygu`n dda iawn. Nid yw`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau dysgu ehangach sy`n cynnwys datrys problemau, gwaith ymchwil ac ymchwilio wedi`i sefydlu gymaint ac mae`r cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol mewn rhai dosbarthiadau yn gyfyng. Yn y dosbarthiadau hyn, mae`r tasgau yn cael eu harwain yn ormodol gan yr athro. Ceir yma felly, diffyg her a disgwyliad ar gyfer y disgyblion mwy abl, yn enwedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae'r ysgol yn dda yn ei datblygiad o ddealltwriaeth disgyblion o'r angen i ofalu am yr amgylchedd, yn yr hyrwyddiad o ddatblygiad cynaliadwy, ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang ac o`r byd amrywiol y maent yn byw ynddo. Defnyddir cyd-addoli yn dda i amlygu materion sy'n ymwneud â thegwch ac anghydraddoldeb.

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad yr iaith Gymraeg yn dda ac mae`r hyrwyddiad o`r dimensiwn Cymreig yn amlwg yn gyffredinol ym mywyd bob dydd yr ysgol. Fodd bynnag, mae`r cynllunio yn fwy effeithiol mewn rhai dosbarthiadau. Mae`r ysgol yn defnyddio`r arbenigedd sydd ganddi yn dda ac mae`r ddarpariaeth Gymraeg yn effeithiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac achlysurol.

**Addysgu: Da**

Ar y cyfan, mae'r addysgu yn dda ac yn cefnogi'r dysgu gan y disgyblion yn dda. Mae`n cyfrannu tuag at greu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Defnyddir canmoliaeth yn dda i annog disgyblion sydd â diffyg hyder ac mae`r athrawon yn herio`r rhan fwyaf o`r disgyblion yn ddigonol. Lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid oes digon o

gyfle i ddysgu`n annibynnol ac mae cyflymder y gwersi yn rhy araf.

Mae pob un o’r staff addysgu, gan gynnwys staff cymorth, yn defnyddio strategaethau ymddygiad yn effeithiol i gadw pob disgybl yn gweithio ar y dasg dan sylw ac mae`r holl ddisgyblion yn elwa o`r berthynas dda sydd ganddynt â`u hathrawon. Mae`r marcio o waith disgyblion gan yr athrawon yn anghyson ac mewn rhai achosion nid yw`n dangos yn glir yr hyn sydd angen i`r disgyblion ei wneud i wella`u gwaith. Mae gosod targedau wedi`i sefydlu ac yn dechrau arwain disgyblion i ddatblygu eu strategaethau eu hun er mwyn gwella eu gwaith.

Caiff cynnydd disgyblion yn eu dysgu ei asesu`n rheolaidd ac yn drwyadl. Lle mae`r arfer yn dda, mae canlyniadau asesu yn dechrau llywio`r cynllunio ar gyfer y dyfodol ac mae gweithgareddau a gynllunir yn cyfateb yn dda i allu a chyrhaeddiad blaenorol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson nac yn effeithiol yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau.

Mae`r tracio o gynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn dda gyda thystiolaeth a dadansoddiad clir o berfformiad disgyblion dros amser. Defnyddir strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dda ac maent yn dechrau cynorthwyo disgyblion i symud ymlaen i`r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae adroddiadau i rieni yn dda ac mae rhieni a gofalwyr yn mynegi boddhad ag ansawdd y sylwadau personol am eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i rieni a disgyblion am fywyd yr ysgol sy`n cynnwys prospectws yr ysgol ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr. Mae trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion newydd yn glir ac mae’r trefniadau trosglwyddo i addysg uwchradd wedi’u hen sefydlu.

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer lles yn effeithiol ac mae manteision byw yn iach yn cael eu hyrwyddo`n dda yn y cwricwlwm. Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu sy`n bodloni rheoliadau statudol.

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac mae systemau mewn lle i nodi disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol â`u gwaith. Mae`r gefnogaeth hon yn canolbwyntio ar anghenion penodol disgyblion. Mae cysylltiadau da wedi`u sefydlu gydag asiantaethau allanol arbenigol. Mae cynlluniau addysg unigol yn cael eu harfarnu a`u diweddaru`n rheolaidd. Mae gweithdrefnau adrodd yr ysgol yn bodloni`r gofynion statudol.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu hawl gyfartal i`r cwricwlwm ac mae`n amgylchedd cynhwysol sy`n hyrwyddo amrywiaeth a pharch at eraill.

Mae’r ysgol yn defnyddio ei hystafelloedd yn effeithiol ac mae adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu cynnal yn dda. Mae’r arddangosfeydd o waith a gweithgareddau`r

disgyblion yn ysgogol ac yn adlewyrchu bywyd yr ysgol. Gwna`r ysgol ddefnydd da iawn o`r amgylchedd tu allan i gefnogi`r dysgu gan y disgyblion.

Mae`r adnoddau yn dda ac yn cyfateb yn dda ag anghenion dysgu`r disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o'r ysgol. Cefnogir y pennaeth gan staff ymroddgar. Mae'r staff yn gweithio'n dda fel tîm i ddatblygu'r ddarpariaeth i wella safonau, er nad yw`r cynllunio bob amser yn ddigon cyson rhwng dosbarthiadau a grwpiau blwyddyn.

Mae disgyblion a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae gan bob un ohonynt gyfrifoldebau penodol i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu. Caiff hyn effaith dda ar ethos yr ysgol. Gwella'r ysgol trwy godi safonau ymhellach yw ffocws y cynllunio strategol.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn effeithiol ac mae ganddi gynlluniau i ddatblygu ymhellach i wella cyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio ar ddatblygu meysydd sydd angen eu gwella. Dyma broses sydd wedi`i sefydlu`n dda ac sydd wedi cyflawni effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth o fewn yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac mae ganddynt ddiddordeb cryf ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Maent yn mynychu hyfforddiant addas ac yn herio'r ysgol fel ffrindiau beirniadol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda ar gyfer gwella. Mae hyn yn seiliedig ar sylfaen o gynllunio strategol cryf dros amser. Mae gan reolwyr ac arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau a gwendidau'r ysgol ac mae hyn yn helpu sicrhau safonau a darpariaeth dda.

Mae'r ysgol yn nodi agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach yn dda. Mae'r cynllun datblygu, sy'n deillio o hunan werthusiad manwl, wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar ymestyn yr ysgol ymhellach. Mae ffocws clir i'r cynllun mewn meysydd penodol ac mae defnydd pwrpasol yn cael ei wneud o ddata i dracio cynnydd disgyblion a gwella safonau. Mae`r holl staff yn teimlo bod ganddynt mewnbwn rheolaidd i hunanarfarnu`r ysgol.

Mae'r staff wedi cael eu cynnwys mewn ystod dda o gyfleoedd hyfforddi a datblygu. Mae rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaethau gydag ysgolion a phartneriaid eraill. Gwnaed cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac eraill yn dda. Mae'r partneriaethau gyda busnesau lleol yn cael eu datblygu`n briodol. Mae'r cysylltiadau trosglwyddo rhwng y lleoliadau meithrin a'r ysgol yn effeithiol. Mae cynlluniau trosglwyddo, y cytunodd y clwstwr o ysgolion a'r ysgolion uwchradd lleol arnynt, yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi'n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae`r ysgol yn dda yn y ffordd mae`n asesu angen ac effeithiolrwydd yr holl asiantaethau sy`n dylanwadu ar fywyd ysgol.

Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei datblygu'n dda trwy astudio cysylltiadau rhyngwladol gyda gwledydd fel Swaziland. Mae`r ysgol yn cefnogi nifer o elusennau sy`n hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o anghenion eraill.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staffio ac adnoddau ariannol eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi`r dysgu a gwelliannau ar draws yr ysgol. Mae gan athrawon wybodaeth ac arbenigedd priodol i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Caiff staff cymorth eu defnyddio'n dda ac maent yn gweithio'n bwrpasol ochr yn ochr ag athrawon yn yr ystafell ddosbarth, yn y swyddfa neu ar ddyletswyddau a swyddi priodol trwy gydol y dydd. Mae systemau rheoli perfformiad wedi ennill eu plwyf yn dda.

Mae gwariant wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol ac mae rheolwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant i sicrhau ei fod yn parhau o fewn y gyllideb. Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, darpariaeth ac yn ei defnydd o gyllid.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwodd dau ddeg chwech rhiant neu ofalwr yr holiadur. Mynegodd pob un safbwyntiau cadarnhaol am yr ysgol, yn enwedig gyda boddhad cyffredinol, cynnydd disgyblion, arweiniad, bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol ac wedi ymgynefino'n dda. Mae pob un yn datgan bod yr ysgol yn hawdd fynd ati. Mae pob un ohonynt yn credu bod yr addysgu'n dda; bod eu plentyn yn ddiogel, bod ymddygiad disgyblion yn dda, bod disgwyliadau staff yn uchel a bod byw`n iach yn cael anogaeth dda. Mae ychydig yn credu nad ydynt yn gwybod os ydy`r gwaith cartref sy`n cael ei roi yn adeiladu`n dda ar yr hyn mae`r plant yn dysgu yn yr ysgol, os ydy`r gefnogaeth ychwanegol yn briodol i anghenion eu plant, os oes ystod dda o deithiau a gweithgareddau yn cael eu trefnu ac os ydy`r plant yn cael eu paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu. Mae lleiafrif bach iawn yn credu nad ydynt yn ymwybodol o`r broses os oes cwyn ganddynt.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwodd wyth deg saith disgybl yn CA2 yr holiadur. Mae bron pob un o`r disgyblion yn gadarnhaol ynglyn â gyda phwy i siarad os oes gofidiau ganddynt, eu bod yn cael eu dysgu sut i gadw`n iach, eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, bod oedolion yn eu helpu â`u gwaith a bod gan yr ysgol ddigon o adnoddau. Mae llawer o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn cytuno bod yr ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw fwlio, bod gwaith cartref yn eu helpu i wella eu gwaith a bod ymddygiad da amser chwarae ac amser cinio. Mae tua traean yn teimlo nad yw plant eraill yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac nid ydynt yn gallu mynd ati i wneud eu gwaith.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Nick Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Eifion Morgan | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rona Evans | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)
O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |